**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig
ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y
bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Morfa Nefyn**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Penderfynwyd rhoi Blaenoriaeth i 'Addysg Grefyddol' yn CDY yr ysgol 2011-12 yn dilyn arfarnu y pwnc fel rhan o amserlen H/A 2010/11.
- Cafodd Addysg Grefyddol sylw blaenllaw yn y CDY eleni 2011-12 yn dilyn arsylwi gwersi ac edrych ar gynlluniau gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Bu i'r dosbarthiadau gynnig cyfleoedd i ddatblygu mwy ar ddealltwriaeth y plant o grefyddau eraill ynghŷd â chrefydd Cristnogol yn y cynlluniau gwaith.
- Astudiodd Bl 2 a 3 - grefydd 'yr Iddew' trwy thema Yr Aifft eleni. Bu'r plant yn dilyn stori Moses a'r 10 Pla. Fel rhan o waith Addysg Grefyddol y dosbarth.Bu'r plant yn creu newyddion brys am 'Y !0 Pla' mewn grwpiau. Recordiwyd y gwaith ar gyfer DVD ar gyfer CBAC. Canmolwyd y cynnyrch gan athrawon mewn cynhadledd yng Nghaerdydd.
- Bu'r plant yn creu 'Bwrdd Y Seder' wrth ddysgu am yr Iddew a defnyddio artrffactau parod a oedd yn yr ysgol i gyfoethogi eu dealltwriaeth ymhellach.

**Materion i gael sylw**.

- Dod ac agweddau o Addysg Grefyddol i sylw'r plant yn rheolaidd ar lawr y dosbarth.
- Derbyn arweiniad gan ymgynghorydd o'r Sir i edrych ar gynlluniau gwaith a rhoi gwybodaeth am weithgareddau amrywiol ynghyd a thasgau Medrau Meddwl oddi fewn I'r pwnc.
- Astudio mwy o grefyddau eraill trwy themau amrywiol yn y dyfodol agos.

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae arteffactau 'crefydd yr Iddew' yn yr ysgol sydd yn adnodd i sbarduno'r plant.
Mae'r athrawon yn hyderus i gyflwyno Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth ac mae'r plant yn llawn brwdfrydedd – gweler DVD – 'Y 10 Pla a bwrdd y Seder'.
Mae'r plant yn hyderus i adrodd stori gyfarwydd o'r Beibl. Byddant yn mwynhau dramateiddio straeon o'r beibl.Gall y plant chwarae rôl neu ail greu rhan o stori o'r Beibl yn hyderus.
Mae'r athrawon yn hyderus iawn i ddysgu Addysg Grefyddol. Plant yn cael ei herio wrth gyd-weithio gyda 'partner trafod' i drafod symbol neu agwedd o Addysg Grefyddol.

| |
|---|
| Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn modelu iaith addas ar gyfer gwersi Addysg Grefyddol.<br>Bydd yr ysgol yn ymweld a Choleg y Bala yn rheolaidd pob 2 flynedd ac mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o stori'r Pasg.<br>Bydd y plant yn parchu agweddau a straeon o'r Beibl trwy wrando ar y ficer lleol a swyddog coleg y Bala i'r ysgol yn rheolaidd, yn sgil hyn bydd y plant yn ennyn dealltwriaeth ehangach o grefydd Cristnogol.<br>Mae bwrdd Crefyddol wedi ei sefydlu yn nosbarth Bl 0 a 1 e.e bwrdd Arch Noa lle mae Arch Noa ei hun, 2 o bob math o anifail , y stori ynghyd a lluniau amrywiol. Mae'r plant yn llawn brwdfrydedd i ymweld a'r bwrdd sydd wedi ei amserlennu gyda ardaloedd y Cyfnod Sylfaen.<br>Derbyniodd yr ysgol adroddiad ardderchog gan gydlynydd Addysg Grefyddol y Corff Llywodraethol yn nhymor yr Haf 2012. Mynegodd y cyd lynydd bod Addysg Grefyddol yn fyw iawn yng ngweithgareddau dyddiol a thematig y plant. |
| **Materion i gael sylw**<br>Prynu mwy o arteffactau crefyddol anrywiol i sbarduno'r plant yn y gwersi.<br>Angen cyflwyno Addysg Grefyddol trwy ardaloedd y Cyfnod Sylfaen e.e creu bedydd,<br>Angen cynnwys mwy o Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth wrth gynllunio yn thematig, mynd ar plant allan i'r Gymuned i gymharu adeiladau Crefyddol.<br>Ymweld ac adeiladau crefyddol fel y Mosg ym Mangor. |

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | |
|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** * |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ES<br>Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Mae gwasnaeth boreol yn amrywiol ac yn gosod cywair cywir i'r plant ar ddechrau pob dydd yn yr ysgol.<br>Trwy ei hamserlen dynn bydd y plant yn derbyn amrywiaeth o straeon h.y straeon o'r Beibl, straeon cyfoes a thasgau ymarferol.<br>Bydd yr ysgol i gyd yn cyd ganu emynau traddodiadol a chyfoes yn rheolaidd sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y plant o addo<br>Bydd y plant yn parchu agweddau a straeon o'r Beibl trwy wrando ar y ficer lleol a swyddog coleg y Bala yn rheolaidd yn ystod y f<br>dealltwriaeth ehangach a dyfnach o grefydd Cristnogol.<br>Bydd yr ysgol yn cynnal gwasnaeth Diolchgarwch mewn adeiladau amrywiol y pentref e.e Eglwys Gatholig, Eglwys Fair a'r Capel. M<br>o fannau addoli yn y pentref ar defnydd ohonynt i addoli ar y cyd. | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>O Fedi 2012 bydd yr ysgol gyfan yn cynnal gwasanaeth boreol yn y caban ar dir yr ysgol (yn hytrach na chynnal gwasnaeth yn y d<br>i'r gwasanaethau e.e cerddoriaeth arbennig , canhwyllau a.y.y.b. | |

| **Rhagorol** | * | **Da** | | **Digonol** | |
|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *N. W. Williams .* (Pennaeth)

Dyddiad: